**Cymuned Iachusol Penrhys**

Wedi'i leoli ar grib y mynydd rhwng y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach - dau gwm sy'n frith o gapeli anghydffurfiol wedi hen gau – nid yw ystâd dai Penrhys a godwyd yn y lle anghyfleus, gwyntog ac anhygyrch hwnnw yn taro'r newyddion fel y bu gynt.

Ond yn y saithdegau a'r wythdegau, roedd yr ystâd dai honno yn y newyddion yn aml – a hynny oherwydd methiant y polisi a chwalodd dai yn y Rhondda ac adleoli tair mil o bobl i'r ystâd a adeiladwyd ar ben y mynydd. Roedd lefelau amddifadedd poblogaeth yr ystâd ddirwasgedig yn aruthrol, gyda diweithdra ar ei uchaf yn 90 y cant a'r anawsterau sy'n nodweddiadol o ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn amlwg iawn. Doedd fawr ddim darpariaeth gymdeithasol, ac roedd yr ymdrech i blannu eglwys yno wedi bod yn gwegian ers blynyddoedd.

Â gwreiddiau'r Parchedig Ddr. John Morgans yn Tylorstown, dros y mynydd o Benrhys, teimlodd ei fod yn cael ei alw i ddod i fyw bywyd o addoliad a gwasanaeth ar ystâd Penrhys. Yn groes i gyngor llawer, ond yn ufudd i alwad Duw, ym 1986 symudodd John gyda'i wraig, Nora a'i deulu yno. Go brin y byddai neb sydd wedi gweld bywyd Eglwys Unedig Penrhys yn y cyfamser yn amau mai mewn ufudd-dod i Dduw y symudodd John a'i deulu i Benrhys. Adnewyddwyd bloc o fflatiau i fod yn gartref i *Llanfair*, ac adeiladwyd capel yn gyfochrog. Cam wrth gam, daeth *Llanfair* Penrhys i fodolaeth, yn ganolfan eglwysig i gymuned eglwysig hyfyw sy'n ymroddedig i fywyd o addoliad a gwasanaeth ac sydd wedi bod yn gyfrwng gweddnewid bywyd yr ystâd oedd wedi cael ei esgeuluso am ddegawdau. Calon canolfan *Llanfair* ym Mhenrhys a chanolfan bywyd cymuned ffydd Penrhys yw'r capel bychan prydferth o syml a'r addoli cyson sydd yna. Ond erbyn hyn gallwn weld bod cymuned ehangach Penrhys yn cyfri *Llanfair* Penrhys yn 'galon' yr ystâd gyda'r capel, y cafeteiria, y llyfrgell a'r siop sydd yn Llanfair yn adnoddau amhrisiadwy ym mywyd yr ystâd.

Roedd y Dr.Morgans eisoes wedi cyflawni gweinidogaeth glodwiw a blaenllaw nid yn unig yn ei enwad ei hun – yr U.R.C. (United Reformed Church) lle y bu'n weinidog eglwysi ac yn llywydd ei enwad am flynyddoedd. Roedd hefyd wedi rhwydweithio'n eang yn y maes eciwmenaidd, yn enwedig pan oedd yn gadeirydd Cyngor Eglwysi Cymru. Meithrinodd ddoleni eciwmenaidd yn ei weinidogaeth ym Mhenrhys, a galluogodd hyn bobl ifanc o wahanol wledydd i

ymweld â Phenrhys a rhai i ddod i weithio ar yr ystâd fel rhan werthfawr a ffurfiadol o'u hyfforddiant diwinyddol. Daeth gwasanaeth Cwmplin y traddodiad Catholig Rhufeinig yn rhan gyson o drefn addoliad Penrhys. O bryd i'w gilydd, cafwyd gwasanaeth gosber yr Eglwys Uniongred yn y Capel yn *Llanfair* Penrhys ac unwaith yn yr awyr agored yn *Llanfair*, gyda chôr o fyfyrwyr diwinyddol o Baia Mare yn Romania yn canu, a llu o bobl Penrhys yn bresennol. Roedd yr achlysur yn arbennig o huawdl gan fod Baia Mare ei hun yn ddinas ôl-ddiwidiannol a'r myfyrwyr yn paratoi mewn cyd-destun ôl-ddiwidiannol i gael eu hordeinio'n genhedlaeth newydd o offeiriaid ar ôl cwymp comiwnyddiaeth yn Romania.

Os yw geiriau Llyfr y Diarhebion yn wir, *'Lle ni byddo gweledigaeth, methu a wna'r bobl' Where there is no vision, the people perish…'* (Diarhebion29:18a), gallwn fod yn hyderus nad 'methu' a wna'r bobl os oes *gweledigaeth*.

Dyma rai o elfenau creiddiol y weledigaeth a ddatblygodd ym Mhenrhys:

- Arweinwyr gweledigaeth Penrhys wedi argyhoeddi'r gymuned trwy eu geiriau a'u bywydau bod iacháu cymuned o'i chlwyfau yn bosib ac yn un o ddyletswyddau'r Ffydd Gristionogol.
- 

  Y gred sy'n greiddiol i fodolaeth *Llanfair* Penrhys bod perthynas rhwng bywydau unigolion yn cael eu gweddnewid a gweddnewidiad 'corff' cymuned Penrhys – hynny yw, bod perthynas annatod rhwng derbyn a bod yn gyfrwng iachâd, a'r cysylltiad cyfochrog ac annatod rhwng addoli cymunedol ac iachâd.

Wrth gynllunio *Llanfair* Penrhys – hynny yw y capel a'r ganolfan a'i hadnoddau, beth oedd rhai o'r canllawiau ?

Dyfynnaf rai o eiriau'r Parchedig John Morgans o'i gronicl o hanes Llanfair Penrhys (yn agos at gael ei gyhoeddi) ac o'i ddyddiadur :

*'The new building needed to reflect an integration of work and worship, of liturgy and social justice. There were central practical ingredients.*

***(a) The call for communal ministry.*** *… At the top of the Maisonette Block would be four flats…the live-in community would provide mutual support, protect the building, and at the same time be accessible to the wider community of Penrhys.*

***(b) The call to be a serving church.*** *The church needed to offer something of practical service to the wider community. The area created immediately underneath the residential flats would be the home of projects which the people of Penrhys felt would be beneficial to the whole estate. After many discussions with the community, it was agreed that spaces should be provided for a Cafe, Creche, Launderette, Nearly-New Shop, Music Room and a Homework Club.*

***(c) The call to reflect worship and justice.***

*Could the Church meet the needs of both the residential community and the wider community of Penrhys? …… The building should form a whole, reflecting that to be "church" is to integrate holiness into the wholeness of life. …[into the many]Projects which are as much the expression of being the church as is the service of worship.*

Trwy i gymuned ffydd Penrhys addoli a gweini, daeth Penrhys yn oleudy ysbrydol. Mae *Llanfair* Penrhys yn pelydru ffydd, gobaith a chariad, ac yn rhoi i lawer ohonom obaith wrth inni, yn ein tro, geisio llywio ffordd trwy dywyllwch ysbrydol y Gymru gyfoes.